Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0232/19

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Mawrth 2019

Annwyl Elin,

Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd Adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri er mwyn gallu cyflwyno Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau yn ddiweddariad i'r Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) 1997. Maent yn sicrhau bod cynnyrch anifeiliaid yn parhau yn ddiogel i ddefnyddwyr a heb ddod i gysylltiad â gweddillion cyffuriau milfeddygol, ac i wahardd y defnydd o rai cyffuriau anghyfreithlon. Bydd y Rheoliadau yn diweddaru y maes hwn o ddeddfwriaeth filfeddygol yng Nghymru fel y ddeddfwriaeth gymharol yn y DU a'r UE cyn i Brydain ymadael â'r UE. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys manylion y sylweddau sy'n cael eu gwahardd, samplo a dadansoddi, yn ogystal â'r troseddau, y cosbau a'r gorfodi dilynol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd• CardiffGohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
CF99 1NACorrespondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cefndir

Wrth ddrafftio'r Rheoliadau, gwelwyd bod camgymeriad yn y diffiniad o "terfyn gweddillion uchaf" yn neddfwriaeth y DU, a hysbyswyd swyddogion Defra o'r camgymeriad hwn, gan staff Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU, cytunodd Defra i ddarparu diffiniad newydd (i'w gytuno gyda Llywodraeth y DU), a fyddai'n cael ei fewnosod wrth i Defra ddiwygio deddfwriaeth y DU, trwy ddiwygio deddfwriaeth a hefyd ei fewnosod yng nghopi drafft y Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) 2019. Fodd bynnag, oherwydd swmp y gwaith o baratoi deddfwriaeth cyn i Brydain ymadael â'r UE, ni chafodd swyddogion Llywodraeth Cymru y diffiniad hwn ac ni chytunwyd arno tan 8fed Mawrth 2019, sy'n hwyrach na'r dyddiad cau o 7fed Mawrth ar gyfer llunio a chyflwyno'r Rheoliadau 21 niwrnod cyn i'r DU ymadael â'r UE.

Bydd torri'r rheol 21 niwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym cyn 29ain Mawrth pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac ar y dyddiad y bydd Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru)2019 hefyd yn destun newid gan y Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau yn gweithio'n effeithiol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'n angenrheidiol felly, a gellir cyfiawnhau torri'r rheol 21 niwrnod yn yr achos hwn.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod, gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambr.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact
Centre: 0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.